




DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun y Gaeaf ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2021 i 2022



CYNNWYS

RHAGAIR	2
DIBEN	3
CYD-DESTUN	4
Feirysau gaeaf	4
Heriau o ran y gweithlu	5
Cefnogi ein GIG drwy'r pandemig ac i adferiad	5
Cynnal capasiti'r system gofal cymdeithasol	7
EGWYDDORION	8
EIN BLAENORIAETHAU AR GYFER GAEAF 2021-22	9
1. Diogelu ein hunain rhag COVID-19	9
2. Cadw pobl yn iach	11
3. Cynnal gwasanaethau iechyd diogel	13
4. Cynnal ein gwasanaethau gofal cymdeithasol	20
5. Cefnogi ein gweithlu gofal iechyd a gofal cymdeithasol	22
6. Cefnogi gofalwyr di-dâl	23
7. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb	24
8. Gweithio gyda'n gilydd ledled Cymru	25

RHAGAIR

Mae eleni wedi parhau i ddod â heriau di-baid i ni yn gysylltiedig â phandemig COVID-19. Mae'r system iechyd a gofal cymdeithasol wedi profi pwysau parhaus yn sgil effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y pandemig, ynghyd ag amrywiaeth o ffactorau eraill sydd wedi arwain at alw mawr am ein gwasanaethau.

Mae'r gaeaf bob amser yn gyfnod heriol i sefydliadau sy'n darparu ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i ddiwallu anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalmwyr, ac rydym yn disgwyl i'r gaeaf hwn fod yn un arbennig o anodd yn wyneb effeithiau'r pandemig sy'n parhau ynghyd ag effaith feirysau anadlol a feirysau eraill.

Mae'r cydbwysedd rhwng cynnal y gofal sydd wedi'i gynllunio a rheoli'r galw mwy am ofal brys yn her bob gaeaf. Eleni mae'r sefyllfa amrywiol o ran achosion COVID-19 yn gwneud y broses o gynllunio gwasanaethau yn fwy cymhleth, ac mae angen inni barhau i fod yn barod i ymateb i amgylchiadau sy'n newid yn gyflym. Mae hynny'n golygu y bydd y system iechyd a gofal cymdeithasol yn addasu'r cydbwysedd ac yn ailflaenoriaethu yn gyson y gaeaf hwn er mwyn defnyddio ei hadnoddau i drin y cleifion mwyaf sâl a'r achosion mwyaf brys.

Yn fwy nag erioed, mae'r galwadau ar ein system iechyd a gofal cymdeithasol i ddiwallu anghenion ein poblogaeth yn golygu bod angen i sefydliadau gydweithio er mwyn cael gwared â rhwystrau a darparu gwasanaethau diogel ac effeithiol. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer gaeaf 2021-22.

Rydym yn canolbwyntio ar gadw pobl yn ddiogel ac yn iach. Byddwn yn cyflawni hyn drwy gamau ataliol er mwyn osgoi salwch, darparu gwasanaethau yn agos i gartrefi pobl lle bo hynny'n bosibl, a lleihau'r risg y bydd salwch yn cyrraedd y pwynt lle mae angen triniaeth ysbyty. Pan fydd angen triniaeth ysbyty, ein ffocws yw sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu'n ddiogel, lleihau'r amser a dreulir yn yr ysbyty a chefnogi pobl i ddychwelyd adref.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i fynegi fy niolchgarwch i'n staff iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru sydd wedi gweithio'n ddiflino yn ystod y pandemig. Maent wedi gweithio gydag ymrwymiad a thosturi, ac yn dal i wneud hynny, i ddarparu gofal a chymorth i gleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalmwyr. Rwy'n cydnabod effaith cynnal yr ymdrech wych hon dros gyfnod estynedig, ac mae diogelu iechyd a lles ein gweithlu yn flaenoriaeth allweddol arall y gaeaf hwn.

Mae pobl Cymru wedi gwneud eu cyfraniad pwysig eu hunain i'n cadw'n ddiogel drwy gefnogi mesurau i reoli lledaeniad y feirws a lleihau ei effaith. Mae bron i 2.4 miliwn o bobl yng Nghymru dros 12 oed wedi cael dos cyntaf o frechlyn COVID-19, ac mae bron i 2.2 miliwn o bobl wedi cael ail ddos.



Eluned Morgan AS, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

DIBEN

Cymru lachach yw ein gweledigaeth ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru o hyd, ac rydym wedi diweddarau'r camau gweithredu yn y ddogfen hon i adlewyrchu'r blaenoriaethau a ddaeth i'r amlwg yn ystod y pandemig.

Nid rhywbeth i'w wneud unwaith ac am byth yw cynllunio ar gyfer y gaeaf. Yn hytrach, mae'n broses sy'n rhan o gyd-destun y gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol bob dydd a thrwy gydol y flwyddyn. Mae hefyd yn mynd law yn llaw â'r cynlluniau sydd gan sefydliadau ar gyfer datblygu a gwella gwasanaethau, gyda'r nod o ymateb i newidiadau yn y galw am wasanaethau yn ogystal â'r datblygiadau mewn triniaethau a thechnoleg.

Rhaid ystyried y cynllun gaeaf hwn ochr yn ochr â nifer o ddogfennau allweddol eraill. Mae Cynllun Rheoli'r Coronafeirws yn nodi ein hymateb ehangach i'r coronafeirws ac yn darparu'r cyd-destun ehangach i'r cynllun iechyd a gofal cymdeithasol hwn. Mae'r ddogfen Ymateb Iechyd y Cyhoedd i Salwch Anadlol, Gaeaf 2021, yn nodi'r ymateb manwl i COVID-19 a fflw tymhorol. O ran cynllunio, caiff y disgwyliadau eu rhannu â'r byrddau iechyd drwy Fframwaith Cynllunio'r GIG. Mae hyn yn cynnwys cynllunio ar gyfer amrywiadau tymhorol yn y galw am wasanaethau, ac mae'r byrddau a'r ymddiriedolaethau iechyd wedi bod yn paratoi'n drylwyr ar gyfer y gaeaf ers sawl mis drwy gyfrwng y prosesau hyn.

Diben ein cynllun gaeaf yw sicrhau diogelwch cleifion a darparu gofal cymdeithasol i'r bobl fwyaf anghenus. Mae'r cynllun yn disgrifio'r hyn yr ydym yn ei wneud i gefnogi sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol i gynllunio ar gyfer cyfnod y gaeaf sydd i ddod. Mae hefyd yn nodi blaenoriaethau ar gyfer byrddau partneriaeth rhanbarthol, awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG i sicrhau eu bod yn cynnal gwasanaethau allweddol i bobl Cymru yn ystod y gaeaf, ac i gadw Cymru'n ddiogel.

Bydd y byrddau partneriaeth rhanbarthol yn dwyn ynghyd awdurdodau lleol, byrddau iechyd, ymddiriedolaethau'r GIG, y trydydd sector a darparwyr gwasanaethau ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol i gydlynu ac arwain y gwaith o ddatblygu cynlluniau integredig lleol lefel uchel. Bydd y cynlluniau hyn yn disgrifio sut mae partneriaid yn cydweithio i gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar gyfer y gaeaf fel rhan o weithgarwch parhaus i gynnal gwasanaethau a mynd i'r afael â'r pwysau ar y system. Bydd arweinwyr clinigol a phroffesiynol ac arweinwyr rhaglenni cenedlaethol hefyd yn cefnogi ac yn hwyluso'r broses o gyflawni'r blaenoriaethau lle bo hynny'n briodol.

Disgwylir i bartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol gydlynu eu gwasanaethau a chyfuno neu alinio adnoddau er mwyn sicrhau bod y cynllun integredig rhanbarthol yn cael yr effaith fwyaf bosibl er budd y bobl sy'n byw yn y cymunedau hynny.

CYD-DESTUN

Yn hanesyddol, mae'r gaeaf yn gyfnod o bwysau ar y system iechyd a gofal cymdeithasol, wrth i'r galw gynyddu yn sgil afiechydon trosglwyddadwy fel fflw tymhorol a'r Norofeirws. Mae'r tywydd oer a'r amrywiadau yn y tymheredd hefyd yn golygu bod angen triniaeth frys ar fwy o bobl, er enghraifft o ganlyniad i lithro a chwympo sy'n arwain at anaf. Dyna pam y mae'n bwysig bod pob rhan o lywodraeth, yn ganolog ac ar lefel llywodraeth leol, yn chwarae eu rhan o ran lleihau'r cyfleoedd i ddamweiniau ddigwydd. Gall y galw a'r cymhlethdod mwy o ran gofal brys arwain, ar adegau, at oedi yn y gwasanaethau hanfodol sydd ar gael i unigolion, a gall hyn effeithio ar eu profiadau a dod â'i ganlyniadau.

Feirysau gaeaf

Eleni, mae'r gwaith modelu yn awgrymu y bydd nifer sylweddol uwch o bobl yn mynd yn sâl gyda feirysau'r gaeaf. Bydd y galw mwy hwn yn rhoi baich sylweddol ar ein gwasanaethau iechyd sydd eisoes dan bwysau. Mae dogfen y Grŵp Cyngor Technegol, *Diweddariad ar fodelu'r gaeaf - Modelu feirysau eraill* yn nodi bod y gwaith modelu a rannwyd gyda'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu wedi awgrymu y gallai tymor fflw 2021-22 fod rhwng 50%-100% yn waeth na thymor arferol, ac y gallai gyrraedd uchafbwynt ar adeg wahanol¹ i'r arfer. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod gwaith modelu gan Brifysgol Warwick yn dynodi bod niferoedd achosion, y niferoedd sy'n mynd i'r ysbyty a niferoedd y marwolaethau bron yn sicr o fod yn uwch mewn tymor fflw sy'n dilyn tymor fflw a gyfyngwyd (ee gaeaf 2020/21), a bod hyd at ddwywaith lefelau tymor fflw arferol yn bosiblwydd go iawn. Mae'r ansicrwydd ynghylch amseriad tebygol tymor y fflw yn gwneud y broses gynllunio yn fwy cymhleth, ac mae'n debygol dros ben felly y gwelwn gynnydd enfawr yn yr angen am ofal brys ar draws gwasanaethau sylfaenol, cymunedol ac aciwt i bobl â'r fflw. Fodd bynnag, mae tymor fflw tawel arall yn dal i fod yn bosiblwydd.

Mae'r feirws syncytiol anadlol (RSV) yn bryder yr hydref a'r gaeaf hwn. Yn dilyn tymor â llai o achosion yn 2020, oherwydd mesurau cadw pellter cymdeithasol a chyfyngiadau symud, y pryder yw y bydd cynnydd enfawr mewn achosion eleni, yn enwedig ymhlith plant bach na ddaethant ar draws y salwch y llynedd. Mae Awstralia a Seland Newydd wedi gweld niferoedd achosion uwch nag arfer, ac wrth gynllunio ar gyfer y gaeaf hwn rhaid ystyried yr angen am gapasiti gofal aciwt a chritigol ychwanegol i blant. Dengys data fod tymor y feirws syncytiol anadlol wedi dechrau yn llawer cynharach nag arfer, a bod ysbytai dan bwysau gydag achosion o fronciolitis ymhlith plant yn sgil y feirws arbennig hwn. Mae gwaith modelu'r Grŵp Cyngor Technegol yn darparu pedwar senario i helpu'r byrddau iechyd i gynllunio capasiti yn lleol.

¹ [JVCI Interim Advice on COVID-19 Booster Vaccine Programme 2021-22](#)

Ers y pandemig, er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd, rydym wedi canolbwyntio i raddau helaeth ar feithrin gallu ein system iechyd a gofal cymdeithasol i allu darparu gofal i bobl sydd â'r coronafeirws a cheisio cynnal ein gwasanaethau hanfodol.

Drwy arloesi cyflym, gan gynnwys nifer sylweddol o ddatblygiadau digidol, er enghraifft cyflwyno ymgynghoriadau fideo yn genedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol, eilaidd a chymunedol, mae wedi bod yn bosibl darparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol. Fodd bynnag, wynebwyd penderfyniadau anodd hefyd ynghylch yr ystod o wasanaethau yr oedd modd eu darparu yn ystod cyfnodau o alw ychwanegol sylweddol ymhlith cleifion a oedd yn dioddef o COVID-19.

Mewn blwyddyn arferol, mae cynllunio ar gyfer feirysau anadlol y gaeaf yn cynnwys yr angen i addasu'r capasiti ar gyfer gwasanaethau eraill, gan gynnwys lleihau triniaethau ysbyty a gynlluniwyd i sicrhau y gall gwasanaethau ymateb yn ddiogel i anghenion brys cleifion sydd â'r feirysau hyn. Eleni, mae gwasanaethau yn paratoi ar gyfer lefelau uchel posibl o alw am ofal COVID-19 ochr yn ochr â feirysau anadlol eraill y gaeaf.

Heriau o ran y gweithlu

Ar adeg pan fo galw mwy am wasanaethau, mae ein gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol wedi cael eu rhoi o dan gryn straen, ac o ganlyniad mae heriau o hyd o ran recriwtio a chadw gweithwyr allweddol ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn, yn ei dro, yn rhoi mwy o straen ar wasanaethau; mae wedi cael effaith enfawr ar y sector gofal cartref, ac mae'r oedi o ran gwasanaethau ailalluogi a phe cynnau gofal i bobl sy'n dychwelyd adref o'r ysbyty yn cael effaith sylweddol. Mae hefyd yn rhoi pwysau pellach ar y llif pobl o fewn ysbytai.

Mae'r pwysau wedi bod yn cynyddu yn ystod y misoedd diwethaf ac mae'r blaenoriaethau a ddisgrifir yn y cynllun hwn yn gymysgedd o'r rhai a fwriedir i liniaru'r pwysau presennol a'r pwysau a ragwelir ar draws systemau iechyd a gofal cymdeithasol dros y gaeaf; ac eraill a fydd â gwerth tymor canolig neu dymor hirach, gan sicrhau gwasanaethau mwy cynaliadwy i'r dyfodol. Bydd hyn yn creu sylfaen ar gyfer datblygu cynlluniau adfer ymhellach i'r flwyddyn i ddod.

Cefnogi ein GIG drwy'r pandemig ac i adferiad

Fel llywodraeth, rydym wedi ceisio diogelu a chefnogi ein GIG drwy fuddsoddiad ychwanegol i sicrhau newid cyflym mewn modelau gwasanaeth er mwyn cynnal mynediad at wasanaethau hanfodol a chynyddu capasiti gwasanaethau i ymdopi â COVID-19.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau £1.1 biliwn o gyllid ychwanegol yn 2021-22 i gefnogi ymateb y GIG i COVID-19 ac i ddechrau'r broses o adfer gofal arferol. Mae hyn yn cynnwys £200m o gyllid refeniw a £48m o gyllid cyfalaf sydd wedi'i ddyrannu fel swm untro at ddiben penodol cynlluniau adfer. Dyrannwyd dros £300m i

sefydliadau i barhau i weithredu eu cynlluniau ymateb lleol hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mae cyllid hefyd yn cael ei ddarparu ar wahân, ar sail cost wirioneddol, i dalu costau rhaglenni cenedlaethol gan gynnwys Profi, Olrhain, Diogelu; cyflenwi cyfarpar diogelu personol; rhaglen frechu COVID-19; a gwell gweithdrefnau glanhau. Mae £140m o gyllid wedi'i ddarparu fel swm untro i gydnabod effaith y pandemig ar sefyllfaoedd ariannol sylfaenol oherwydd y cyfyngu a fu ar y gallu i wella effeithlonrwydd yn ôl yr arfer.

Mae'r dyraniadau hyn yn seiliedig ar amcanestyniadau sefydliadau eu hunain o gostau, ac felly'n cadarnhau'r cyllid y mae'r GIG wedi'i ragweld sydd ei angen arno i gynnal ei ymateb drwy gyfnod yr hydref a'r gaeaf.

Rydym wedi canolbwyntio ar reoli a lliniaru'r pum niwed sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.



Gwyddom fod y pandemig wedi effeithio ar bobl sydd angen gofal mewn amrywiaeth o wahanol leoliadau ac at ddibenion gwahanol. Effeithiwyd yn benodol ar bobl a oedd yn aros am driniaethau a oedd wedi'u cynllunio, ac fel y nodwyd uchod, rydym wedi dyrannu £240miliwn o'r cyllid ychwanegol eleni i hwyluso a chyflymu'r broses o adfer y gwasanaethau hyn. Dylai hyn ddechrau sicrhau bod pobl yn cael eu hasesu a'u trin cyn gynted â phosibl.

Mae buddsoddiad o £25 miliwn ar sail reolaidd yn helpu i wella gwasanaethau gofal brys. Rydym yn canolbwyntio ar ddarparu'r gofal iawn yn y lle iawn, y tro cyntaf drwy 'chwe nod' ar gyfer y system iechyd a gofal. Mae'r cyllid hwn yn cael ei dargedu i ehangu gwasanaethau gofal brys a ddarperir ar y diwrnod ynghyd â datblygu gwasanaethau arloesol megis canolfannau gofal sylfaenol brys. Bydd y

datblygiadau hyn yn caniatáu i bobl sydd ag anghenion gofal brys gael eu gweld a'u trin yn gyflym, gan leihau'r angen i aros mewn ysbyty.

Cynnal capasiti'r system gofal cymdeithasol

Darparwyd pecyn o gymorth ariannol i'r sector gofal cymdeithasol, gan gynnwys dros £185m hyd yma i'r sector gofal cymdeithasol i oedolion, i dalu costau cyffredinol y pandemig ac i helpu gyda'r pwysau ychwanegol sy'n deillio o fylchau heb eu hariannu mewn gofal preswyl drwy Gronfa Galedi Llywodraeth Leol.

Yn ogystal, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol y Fframwaith ar gyfer Adferiad Gofal Cymdeithasol ym mis Gorffennaf 2021. Roedd hwn yn nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer adfer gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan ganolbwyntio'n glir ar y blaenoriaethau adfer uniongyrchol yr oedd angen mynd i'r afael â nhw ar frys. Er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r Fframwaith, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol gronfa adfer werth £40m ar gyfer gofal cymdeithasol. Diben y grant yw cefnogi adferiad priodol i wasanaethau gofal cymdeithasol mewn ardaloedd awdurdodau lleol ledled Cymru, yn unol â'r meysydd blaenoriaeth a nodir yn y Fframwaith ar gyfer Adferiad Gofal Cymdeithasol, ac unrhyw gynlluniau adfer ehangach a ddatblygwyd gan yr awdurdod lleol a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol perthnasol. Disgwylir cynlluniau gwariant cychwynnol gan awdurdodau lleol ym mis Hydref a chynllun adfer erbyn diwedd Rhagfyr.

Er mwyn lleihau'r risg o niwed i breswylwyr ein cartrefi gofal a sicrhau sefydlogrwydd y sector, rydym wedi darparu cymorth ariannol ar gyfer cartrefi gofal yn ogystal â datblygu ystod o ganllawiau gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddiogelu'r lleoliadau hyn lle mae rhai o'n pobl fwyaf agored i niwed yn byw. Mae'r canllawiau wedi cynnwys mesurau atal a rheoli heintiau mewn cartrefi gofal a chyfarwyddyd ar ryddhau cleifion yn ddiogel o wasanaethau ysbytai.

Mae hyrwyddo adferiad ac annibyniaeth a chael pobl adref yn ddiogel yn flaenoriaethau allweddol, ac rydym wedi dyrannu cyllid ar gyfer y broses o ryddhau cleifion er mwyn adfer ac asesu llwybrau drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Gwelwyd mwy o alw am ofal cartref yn ystod y misoedd diwethaf a rhagwelir y bydd hyn yn parhau i mewn i wanwyn 2022. Rydym yn parhau i gefnogi ein sector gofal cartref drwy fesurau ariannol a chymorth i ddatblygu hyfforddiant er mwyn denu staff newydd i weithio yn y maes.

Mae ein hymrwymiad i'n gweithlu a'n gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn amlwg yn ein Rhaglen Lywodraethu, ac mae ein ffocws nawr ar y blaenoriaethau allweddol er mwyn bod mewn sefyllfa gryfach i fynd drwy'r gaeaf yn ddiogel ac i mewn i wanwyn 2022.

Drwy'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid, rydym yn parhau i fuddsoddi mewn amrywiaeth o wasanaethau sy'n ceisio lleihau'r angen i bobl hŷn fregus fynd i'r ysbyty ac sy'n cefnogi pobl i fyw'n annibynnol. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau

adsefydlu ac ailalluogi, cymorth rhyddhau o'r ysbyty yn gyflym, gofal dementia ac atal cwmpo, ymhlith eraill.

Drwy gyfarfodydd wythnosol rheolaidd rhwng y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac awdurdodau lleol a byrddau iechyd byddwn yn darparu pecyn cymorth i geisio lleihau nifer y bobl sy'n mynd i'r ysbyty a chyflymu'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty fel bod mwy o leodd ar gael a gwell llif drwy systemau ein hysbytai.

EGWYDDORION

Yr egwyddorion craidd sy'n sail i'r cynllun hwn yw canolbwyntio ar ddiogelwch yn gyntaf, blaenoriaethu gofal i'r bobl fwyaf anghenus a sicrhau cydbwysedd risgiau ar draws y pum niwed.

Niwed o COVID ei hun:

- Cynnal mesurau atal a rheoli heintiau i'ch cadw'n saff
- Diogelu'r cyhoedd drwy ddarparu pigiad atgyfnerthu rhag COVID, a system Profi, Orlhain, Diogelu

Niwed o system iechyd a gofal cymdeithasol sydd wedi'i gorlethu:

- Diogelu'r cyhoedd drwy frechu rhag y fflw
- Defnyddio adnoddau gofal ysbyty ar gyfer y rhai sydd angen gofal ysbyty yn unig
- Sicrhau bod gwasanaethau gofal brys yno i'r rhai sydd eu hangen
- Sicrhau bod gan y maes gofal cymdeithasol yr adnoddau i ddarparu gofal

Niwed o leihad mewn gweithgarwch nad yw'n gysylltiedig â COVID-19:

- Cynnal gwasanaethau hanfodol ar draws lleoliadau gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd
- Diogelu gwasanaethau canser i gynnal adnoddau diagnosis a thriniaeth arbed bywyd
- Cynnal gofal sydd wedi'i gynllunio pan fo'n ddiogel gwneud hynny
- Diogelu gwasanaethau plant, gan eu cynnal drwy gydol y gaeaf

Niwed o gamau / cyfyngiadau cymdeithasol ehangach:

- Sicrhau bod gwasanaethau argyfwng iechyd meddwl ar gael
- Gwneud y mwyaf o'r gwasanaethau cymorth lles meddyliol ac emosiynol sydd ar gael
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl drwy Gynllun Cyfathrebu ar gyfer y Gaeaf

Niwed o anghydraddoldebau newydd neu rai sy'n bodoli eisoes:

- Sicrhau bod grwpiau sy'n agored i niwed yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer brechlynnau COVID-19 a'r fflw.

EIN BLAENORIAETHAU AR GYFER GAEAF 2021-22

1 Diogelu ein hunain rhag COVID-19

Mae llwyddiant rhaglen frechu COVID-19 wedi darparu amddiffyniad hanfodol sydd wedi caniatáu rhyddid i'n cymdeithas yr oedd ei angen yn fawr, ac wedi ei gwneud yn bosibl ailagor ein heconomi, ond mae cysgod y pandemig yn parhau drosom wrth i ni symud i mewn i'r gaeaf. Rydym wedi gweld cyfraddau heintiau yn codi, a mwy o bobl yn mynd i'r ysbyty yn sgil y coronafeirws. Diolch byth, nid yw hyn ar yr un raddfa ag a welwyd yn gynharach eleni, ond mae'n parhau i effeithio ar gapasiti gwasanaethau'r GIG ac rydym yn parhau i fod yn wylidwrs wrth fonitro'r sefyllfa. Mae Cynllun Rheoli'r Coronafeirws ac Ymateb Iechyd y Cyhoedd i Salwch Anadlol, Gaeaf 2021, yn nodi'r dull arfaethedig o reoli COVID-19 yn ystod y gaeaf, a dylid eu darllen ochr yn ochr â'r cynllun hwn.

1.1 Monitro a Modelu

Drwy fonitro a modelu'n barhaus y cyfraddau heintio a'r cyfraddau sy'n mynd i'r ysbyty, ac olrhain y risgiau sy'n gysylltiedig ag ymddangosiad amrywiolion newydd ynghyd â mesurau atal a rheoli heintiau gweithredol yn ein lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, byddwn yn parhau i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws. Mae modelu yn weithgaredd hanfodol ar lefel genedlaethol a lleol sy'n ei gwneud yn bosibl dod i benderfyniadau ynghylch capasiti gwasanaethau a'r defnydd gorau o staff.

1.2 Rhaglen Frechu COVID-19

Mae'r rhaglen frechu yn parhau ac mae'n dal i fod yn un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o amddiffyn pobl rhag y coronafeirws. Mae brechu yn gydnaws â chynghor y Cydbwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu a'r Prif Swyddogion Meddygol. Ar hyn o bryd, y grwpiau blaenoriaeth i gael eu brechu yw:

- Unigolion sy'n ddifrifol o imiwnoataliedig ac sydd angen trydydd dos fel rhan o'r cwrs brechu sylfaenol, i sicrhau'r amddiffyniad gorau posibl;
- Plant a phobl ifanc dros 12 oed sydd â chyflyrau iechyd penodedig, sy'n cael cynnig cwrs brechu sylfaenol dau ddos;
- Bydd pob plentyn a pherson ifanc arall dros 12 oed sydd heb unrhyw gyflyrau iechyd yn cael cynnig cwrs brechu sylfaenol un dos;
- Bydd unigolion sy'n agored i niwed, pobl dros 50 oed a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen a gafodd frechiad yng nghanam 1 rhaglen frechu COVID-19 (grwpiau blaenoriaeth 1-9) yn cael cynnig pigiad atgyfnerthu, heb fod yn gynharach na chwe mis ar ôl ail ddos eu cwrs sylfaenol.

Parheir i gynnig y brechlyn i unigolion nad ydynt eto wedi manteisio arno i'w hamddiffyn eu hunain ac eraill, a bydd pwyslais o hyd ar sicrhau bod y brechlyn yn cael ei gynnig i fenywod beichiog.

1.3 Profi, Olrhain, Diogelu

Mae ein gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu wedi chwarae rhan hanfodol wrth helpu i reoli lledaeniad y coronafeirws. Dangosodd gwaith modelu a wnaed ar gyfer ein Grŵp Cyngor Technegol fod Profi, Olrhain, Diogelu wedi bod yn effeithiol o ran cyfyngu ar drosglwyddiad a'i fod yn fwy effeithiol po isaf yw lefelau'r feirws sy'n cylchredeg (oherwydd bod modd cysylltu â mwy o bobl a'u holrhain).

Mae rhinweddau i brofi ynddo'i hun gan ei fod yn cefnogi'r gwaith o ynysu achosion positif. Mae ynysu cymaint o achosion positif â phosibl yn parhau i fod yn ymateb pwysig a chymesur i'r pandemig.

Mae Profi, Olrhain, Diogelu yn gam lliniaru hanfodol, a dyna pam yr ydym wedi cadw dyletswydd gyfreithiol i bobl hunanynysu os ydynt yn cael canlyniad prawf positif am COVID-19 neu os nad ydynt wedi cael eu brechu a'u hysbysu fel cyswllt agos. Mae Profi, Olrhain, Diogelu wedi esblygu yn ystod y pandemig a bydd angen iddo esblygu ymhellach i adlewyrchu'r ffaith fod cydbwysedd y niwed wedi newid o ganlyniad i gyflwyno'r rhaglen frechu, a'r gostyngiad yn nifer y bobl sy'n mynd i'r ysbyty a'r gostyngiad mewn canlyniadau anffafriol. Mae ynysu os oes gennych symptomau a pharhau i ynysu yn dilyn canlyniad prawf llif unffordd positif neu brawf PCR positif yn parhau i fod yn ffordd bwysig o leihau cyfraddau achosion a lledaeniad y feirws. Mae hyn yn ei dro yn helpu i leihau'r niwed sy'n gysylltiedig â COVID-19 a phwysau ar y GIG.

Mae gennym tua 2,000 o bobl yn gweithio yn ein system Profi, Olrhain, Diogelu sydd wedi bod yn cysylltu â thua 20,000 o bobl yr wythnos yn ddiweddar. Gan fod cyfraddau'n parhau'n uchel, ac y gallai'r system gael ei llethu, efallai y bydd angen i ni ganolbwyntio ein mesurau Profi, Olrhain, Diogelu ar y rhai sydd fwyaf agored i niwed os ydynt yn cael y feirws.

1.4 Atal a Rheoli Heintiau

Datblygwyd canllawiau pwrpasol ar atal a rheoli heintiau yn ystod cyfnod cyntaf y pandemig ar gyfer amgylcheddau iechedd a gofal, ac mae hyn yn parhau i gael ei adolygu wrth i'r sefyllfa esblygu. Mae diogelwch wrth wraidd ein holl waith ac mae angen i'n lleoliadau iechedd a gofal cymdeithasol gynnal arferion i atal heintiau rhag lledaenu, gan gynnwys gwahanu gwasanaethau ar gyfer cleifion COVID, cleifion COVID posibl a chleifion nad ydynt yn gleifion COVID a chadw pellter cymdeithasol. Mae hyn yn parhau i effeithio ar gapasiti gwasanaethau yn ein lleoliadau iechedd a gofal cymdeithasol ac mae hefyd yn effeithio ar y cydbwysedd o ran ymgynghoriadau o bell ac wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, pan fydd angen ymgynghoriad wyneb yn wyneb ar bobl, mae hyn yn parhau i gael ei ddarparu.

2 Cadw pobl yn iach

Mae risgiau ac effaith salwch anadlol yn ystod y gaeaf yn hysbys iawn. Y gaeaf hwn mae angen i sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol baratoi ar gyfer y posibilrwydd y bydd lefelau uwch o'r fflw yn cylchredeg, ynghyd ag achosion tymhorol eraill o heintiau anadlol, o gofio'r lefelau isel a gofnodwyd drwy gydol 2020-21 sy'n effeithio ar lefelau imiwnedd naturiol ein poblogaeth.

Mae gwaith modelu a wnaed ar gyfer Academi'r Gwyddorau Meddygol ac ar gyfer y Cyd-bwyllgor ar Imiweiddio a Brechu wedi awgrymu y gallai tymor y fflw a'r feirws syncytiol anadlol y gaeaf hwn arwain at bwysau sy'n fwy nag y byddid wedi'i ddisgwyl pe bai'r gaeaf diwethaf wedi bod yn dymor arferol o ran y feirws syncytiol anadlol/y fflw, ac o bosibl ar adeg wahanol o'r flwyddyn nag arfer. Hyd yma mae lefelau'r fflw wedi bod yn isel iawn ond mae tymor y feirws syncytiol anadlol wedi dechrau'n gynt nag arfer ac mae'n achosi pwysau o ran plant yn cael eu derbyn i'r ysbyty gyda bronciolitis. Mae rhywfaint o dystiolaeth sy'n awgrymu bod dal y fflw a COVID-19 ar yr un pryd yn creu effaith sy'n golygu aros yn yr ysbyty yn hirach a mwy o risg o farwolaeth.

2.1 Hunanofal

Mae yna bethau y gallwn ni i gyd eu gwneud i wella ein hiechyd a'n lles cyffredinol, ac mae'r rhain yn arbennig o bwysig yn ystod misoedd y gaeaf. Mae cadw'n heini, bwyta'n iach, cyfyngu ar yfed alcohol a rhoi'r gorau i smygu i gyd yn ffyrdd y gallwn wella ein hiechyd fel cenedl a chadw'r pwysau oddi ar wasanaethau'r GIG.

Mae manteisio ar y cynnig o frechiad yn gam arall y gall pobl ei gymryd i ofalu amdanynt eu hunain ac eraill, ynghyd â chadw cyflenwad o feddyginiaeth gartref a chael gafael ar gymorth gan fferyllfeydd lleol drwy'r Cynllun Anhwylderau Cyffredin. Mae defnyddio'r gwasanaeth mwyaf priodol yn golygu bod gan ein gwasanaethau gofal brys fwy o gapasiti i drin cleifion â chyflyrau sy'n bygwth bywydau.

Mae'n bwysig gofalu am ein lles meddyliol hefyd. Mae help a chymorth ar gael i'r rhai sydd am gael ffordd iachach o fyw, a does dim amser gwell i wneud y newidiadau hyn. [111 GIG Cymru - Byw'n Dda](#)

2.2 Fflw tymhorol

Ochr yn ochr â rhaglen frechu COVID-19, mae ein timau gofal iechyd yn darparu'r rhaglen frechu rhag y fflw tymhorol fel mesur ataliol ar gyfer grwpiau sydd mewn perygl (e.e. pobl â chyflyrau clinigol) ac ar gyfer ein gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r Cyd-bwyllgor ar Imiweiddio a Brechu wedi cynghori bod rhoi brechlynnau fflw a COVID-19 ar y cyd yn ddiogel ac y dylid ystyried hyn lle byddai'n arwain at wella effeithlonrwydd. Gall pob grŵp sy'n gymwys i gael y brechiad fflw gael eu brechu ar unrhyw adeg yn ystod y rhaglen frechu rhag y fflw tra bod pigiad atgyfnerthu COVID-19 yn cael ei ddarparu'n raddol i bobl yr ystyrir eu bod fwyaf agored i niwed yn gyntaf. Lle y bo'n ymarferol, bydd darparu'r ddau frechlyn ar yr un pryd yn cael ei ystyried. Y gaeaf diwethaf, roedd cyfraddau brechu rhag y fflw yr uchaf a gofnodwyd erioed yng Nghymru ac rydym am sicrhau bod mwy fyth o bobl

yn manteisio ar y brechlyn fflw eleni, gan ganolbwyntio ar grwpiau blaenoriaeth sydd fwyaf tebygol o ddal y fflw a dioddef canlyniadau difrifol, neu sydd mewn mwy o berygl o heintio pobl eraill. Mae hyn yn hanfodol er mwyn diogelu iechyd ein poblogaeth a lleihau'r angen am gyfnodau yn yr ysbyty ar adeg pan fydd gwasanaethau'n gweld galw uwch.

Mae'r grwpiau blaenoriaeth ar gyfer 2021-2 fel a ganlyn:

- plant sy'n ddwy neu'n dair oed ar 31 Awst 2021
- plant ysgol gynradd o'r dosbarth derbyn i Flwyddyn 6 (yn gynhwysol)
- plant ysgol uwchradd Blwyddyn 7 i Flwyddyn 11 (yn gynhwysol)
- pobl 50 oed ac yn hŷn (oedran ar 31 Mawrth 2002)
- unigolion chwe mis oed i lai na 50 oed mewn grwpiau risg clinigol. Eleni rydym yn ymestyn y cynnig i'r rhai 16 oed ar 31 Awst sy'n afiachus o ordew, yn unol â chanllawiau ar raglen frechu COVID
- menywod beichiog
- gofalwyr
- pobl o bob oed ag unrhyw lefel o anabledd dysgu
- pob oedolyn sy'n byw yng ngharchardai Cymru
- gweithwyr gofal iechyd (gan gynnwys myfyrwyr gofal iechyd) sydd â chyswllt uniongyrchol â chleifion
- staff mewn cartrefi nyrsio a chartrefi gofal sydd â chyswllt uniongyrchol â chleientiaid
- staff sy'n darparu gofal cartref.

2.3 Cyflyrau anadlol

Ochr yn ochr â brechu, mae gwasanaethau sy'n rhoi cymorth i bobl â chyflyrau anadlol i gadw'n iach yn chwarae rhan hanfodol yn ein rhaglen ar gyfer y gaeaf. Mae ein timau gofal sylfaenol a chymunedol yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o nodi a rheoli cyflyrau anadlol ac mae timau gofal sylfaenol yn gweithio'n galed i roi adolygiadau a chyngor i gleifion i'w helpu i reoli eu cyflwr. Rhaid i'n gwasanaethau hefyd allu ymateb pan fydd pobl yn gweld eu cyflwr yn gwaethygu a rhoi cymorth iddynt mor agos i'w cartrefi â phosibl a lleihau'r angen i bobl fynd i'r ysbyty i dderbyn gofal.

2.4 Cyflyrau hirdymor

Byddwn yn cryfhau ac yn cynyddu capasiti ein gwasanaethau cymunedol gofalwyr a gweithwyr iechyd amlbroffesiynol i gefnogi pobl i gadw'n iach gartref a dychwelyd adref o'r ysbyty i barhau i adsefydlu a gwella gartref.

Dyrannwyd £1m o gyllid ar gyfer darparu gwiriadau iechyd cymunedol i bobl â chyflyrau iechyd hirdymor y gaeaf hwn. Mae'r gwiriadau iechyd hyn yn fecanwaith diogelwch pwysig ar gyfer adnabod newid yng nghyflyrau pobl a sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen i'w cadw'n iach.

3 Cynnal gwasanaethau iechyd diogel

Rhaid i ddiogelwch cleifion fod yn gwbl flaenllaw i'r holl waith cynllunio gofal iechyd ac ar adegau o bwysau gall hyn olygu gorfod gwneud dewisiadau anodd i flaenoriaethu gwasanaethau er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu i'r rhai sydd â'r angen mwyaf ac yn y perygl mwyaf o niwed, os na chânt eu trin.

Mae'r *Fframwaith Opsiynau Lleol* a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020 i helpu sefydliadau iechyd yng Nghymru i wneud penderfyniadau yn ystod cyfnodau prysur o ran galw yn sgil COVID-19 wedi'i ddiwygio a'i ailgyhoeddi yn ystod mis Hydref 2021 i ddarparu fframwaith wedi'i ddiweddarau ar gyfer gaeaf 2021-22. Mae'r fframwaith hwn yn cydnabod y gallai fod angen gwneud penderfyniadau anodd ar adegau pan fo'r pwysau ar ei anterth o ganlyniad i effeithiau parhaus y pandemig, ochr yn ochr â'r galw am wasanaethau yn ystod y gaeaf. Gallai'r penderfyniadau hynny olygu oedi rhai gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio, er mwyn cynnal diogelwch gwasanaethau i'r cleifion hynny sydd â'r angen mwyaf brys am ofal.

O ystyried natur a graddfa'r heriau yr ydym yn disgwyl eu profi y gaeaf hwn, rhagwelwn y bydd sefydliadau'r GIG yn ailflaenoriaethu'n gyson dros y cyfnod er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael, boed hynny'n weithlu neu'n welyau ysbyty, i ymateb i'r pwysau ac i ofalu am y rhai sydd â'r angen mwyaf. Bydd ein ffocws ar ddiogelwch cleifion a'r system yn hanfodol, a bydd angen ymateb yn gyflym i unrhyw gynnydd, gan gymryd cyngor clinigol ar flaenoriaethau gweithredu ac ymateb.

Mae ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wedi bod dan bwysau hir ers dechrau pandemig y coronafeirws. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod hwn bu trawsnewid cyflym a sylweddol yn ein gwasanaethau sy'n parhau i esblygu i ymateb i'r heriau sy'n ein hwynebu. Rydym yn disgwyl i sefydliadau barhau i fabwysiadu ffyrdd digidol o weithio ar raddfa i gefnogi prosesau gofal iechyd.

Cydnherthedd ein gwasanaethau i allu darparu gofal diogel o ansawdd uchel i gleifion y gaeaf hwn yw ein blaenoriaeth allweddol. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni hyn, mae'n hanfodol bod ein gwasanaethau'n parhau â'u gwaith tuag at fodolau gwasanaeth cynaliadwy ochr yn ochr â chamau gweithredu ar unwaith ar gyfer cyfnod y gaeaf.

Cadw ein poblogaeth yn ddiogel drwy ddarparu gwasanaethau diogel, amserol o ansawdd uchel yw ein blaenoriaeth. Mae angen i'n gwasanaethau ymateb i anghenion cleifion am ofal brys ac argyfwng a gall hyn roi ein gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio dan bwysau.

Yn yr un modd, mae gallu cael gafael ar ofal wedi'i gynllunio, o apwyntiadau gyda'n timau gofal sylfaenol drwy fynediad uniongyrchol at asesiad, diagnosis a thriniaeth gan ein gwasanaethau cymunedol ac mewn ysbytai yn hanfodol i gynnal ac adfer iechyd ac yn cyfrannu at gynnal gallu ein gwasanaethau i ddiwallu anghenion cleifion sydd angen triniaeth frys neu driniaeth mewn argyfwng.

Eleni, ochr yn ochr â'r sefyllfa barhaus o ran COVID-19, rydym yn cynllunio ar gyfer lefelau uwch posibl o gyflyrau anadlol eraill. Diolch i'n gwaith modelu mae ein GIG yn paratoi i ddefnyddio'r capasiti i'r eithaf i ddiwallu'r anghenion hyn.

Nodir ein blaenoriaethau i'n gwasanaethau iechyd ar gyfer gaeaf 2021-22 isod.

3.1 Anghydraddoldebau iechyd a grwpiau agored i niwed

Fel Llywodraeth rydym wedi ymrwymo i leihau anghydraddoldebau iechyd ac i sicrhau Cymru decach ym mhob agwedd ar gymdeithas. Rydym wedi ategu hyn drwy ddeddfwriaeth nodedig fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Mae COVID-19 wedi dod â'r ffocws hwn yn amlycach fyth gan ein bod yn gwybod bod y coronafeirws wedi effeithio'n anghymesur ar bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, grwpiau agored i niwed a chymunedau tlotach. Rydym wedi canolbwyntio ein hymdrechion ar adfer gwasanaethau wedi'u cynllunio ar sail risg o niwed a budd o driniaeth a'r angen i sicrhau bod grwpiau agored i niwed yn cael eu cefnogi i gael gafael ar y driniaeth sydd ei hangen arnynt. Mae ystyriaethau moesegol yn rhan sylfaenol o'n penderfyniadau i sicrhau tegwch.

Fel rhan o'n hymateb i'r gaeaf, rydym yn datblygu Cynllun Gwrthsefyll Tywydd Oer i gefnogi deiliaid tai sy'n agored i niwed a deiliaid tai incwm isel sydd mewn perygl o gael afiechyd y gellir ei osgoi sydd wedi'i achosi gan fyw mewn cartref oer.

3.2 Iechyd meddwl a lles

Mae'n bwysig sicrhau cydraddoldeb rhwng cyflyrau iechyd corfforol a meddyliol, a rhaid i wasanaethau iechyd meddwl – ar gyfer plant, oedolion ac oedolion hŷn – barhau i fod ar gael i'r rhai y mae angen cymorth arnynt. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r GIG a phartneriaid ehangach i gynyddu capasiti gwasanaethau fel y gallwn fodloni'r cynnydd presennol a disgwyliedig yn y galw am wasanaethau iechyd meddwl.

Bydd ein hymateb i effaith y pandemig ar iechyd meddwl yn parhau i ganolbwyntio ar dri maes allweddol:

- Cynnal gwasanaethau iechyd meddwl fel gwasanaethau 'hanfodol' ac ymateb i anghenion iechyd meddwl uniongyrchol;
- Cryfhau ffactorau amddiffynnol a lleihau effeithiau economaidd-gymdeithasol y pandemig ar iechyd meddwl a lles – gan gydnabod bod llawer o'r ysgogiadau ar gyfer amddiffyn ac atal ym maes iechyd meddwl y tu allan i'r system iechyd.
- Cefnogi'r GIG i ddiwallu'r anghenion iechyd meddwl sy'n newid yn eu hardaloedd, a sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl yn gallu sefydlogi ac adfer ar gyfer yr hirdymor.

Yn ogystal â mwy na £727m sy'n cael ei fuddsoddi'n flynyddol ym maes iechyd meddwl, gwnaethom fuddsoddi £42m pellach ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl

yn 2021/22. Dyrannwyd hyn i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun Cyflawni Iechyd Meddwl 2019-22 a gafodd ei adnewyddu mewn ymateb i COVID-19 a'i gyhoeddi ym mis Hydref 2020. Mae ein blaenoriaethau yn y cynllun hwn yn cynnwys: iechyd meddwl plant a phobl ifanc; gwella gwasanaethau argyfwng pob oedran, iechyd meddwl amenedigol, anhwylderau bwyta, gwelliannau i gymorth mynediad agored/haen 0 a gwella mynediad at therapïau seicolegol.

Y camau gweithredu allweddol yw:

- Mae angen i gynlluniau byrddau iechyd ddangos sut y bydd adnoddau'n cefnogi'r meysydd hyn ac – yn unol â llythyr Blaenoriaethau Gweinidogol GIG Cymru dyddiedig 9 Gorffennaf – sut y canolbwyntir mwy ar atal ac ymyrryd yn gynharach mewn gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion a phlant.
- Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol barhau i ganolbwyntio ar weithredu fframwaith cynllunio NYTH/NEST² erbyn 31 Mawrth 2022. Bydd y fframwaith yn cefnogi Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ganolbwyntio eu cynlluniau ar gyfer gwasanaethau lleol a sicrhau dull 'system gyfan' ar gyfer datblygu gwasanaethau iechyd meddwl, lles a chymorth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd ehangach ledled Cymru.
- Ymestyn a gwerthuso'r gwasanaethau cymorth a ddarperir gan Ambiwlans Sant Ioan Cymru. Mae prosiect treialu cerbydau cymorth i bobl sydd wedi profi argyfwng iechyd meddwl ac sydd angen cludiant cyflym i'r lleoliad cywir ar gyfer asesiad neu ofal pellach wedi darparu 400 o deithiau ers iddo gael ei weithredu ym mis Chwefror 2021 heb fod angen ambiwlans brys. Mae'r prosiect hwn wedi'i ehangu o'r de-orllewin i weddill Cymru o fis Medi 2021. Bydd y gwasanaeth hwn yn cael ei werthuso ac os yw'n gwella profiad a chanlyniadau cleifion yna bydd hwn, neu wasanaeth tebyg, yn cael ei gaffael a'i osod ar sail gynaliadwy o 2022 ymlaen.
- Dylai fod un pwynt cyswllt iechyd meddwl 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos ym mhob bwrdd iechyd a fydd yn cynnig brysbennu, asesu, cefnogi ac yn cyfeirio'r rhai sydd ag angen emosiynol neu iechyd meddwl. Bydd y gwasanaeth yn cael ei staffio gan weithwyr iechyd meddwl proffesiynol hyfforddedig a thosturiol. Er y bydd y gwasanaeth hwn yn canolbwyntio ar hyrwyddo hunan-wydnwch a hyfforddiant iechyd, bydd hefyd yn cynnig ymyriadau byr ac, os oes angen, mynediad at wasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

3.3 Gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol

Mae gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol a ddarperir gan bractisau cyffredinol lleol, fferyllwyr, deintyddion ac optometryddion a'r tîm cymunedol ehangach fel nyrsys ardal, ymwelwyr iechyd a ffisiotherapyddion sy'n cefnogi cleifion yn lleol yn rhan hanfodol o'n hymateb y gaeaf hwn. Mae'r gwasanaethau hyn yn galluogi pobl i aros yn iach, i ymgymryd â hunanofal ar gyfer mân anhwylderau a chyflyrau hirdymor a darparu gofal uniongyrchol. Mae £1m wedi'i dargedu at

² NYTH: Rhoi Nerth / Ymddiried / Tyfu'n Ddiogel / Hybu /NEST: Nurturing Empowering Safe Trusted

gynyddu capasiti i ddarparu adolygiadau rheolaidd i bobl sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor.

Mae'n hanfodol cefnogi cadernid gwasanaethau sylfaenol a chymunedol sydd dan bwysau yn ogystal â gwneud y defnydd gorau o'r gwasanaethau hyn er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar y cyngor a'r gofal sydd eu hangen arnynt, cyn gynted â phosibl ac yn y lle iawn.

Y camau gweithredu allweddol yw:

- Darparu cymorth i gleifion â salwch anadlol, gan gynnwys adolygiadau rheolaidd a chamau gweithredu i gefnogi hunanofal.
- Sicrhau bod gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol ar gael i gleifion â chyflyrau hirdymor a phobl y mae angen eu hasesu ar unwaith, gan gynnwys adolygiadau rheolaidd ar gyfer cleifion â chyflyrau iechyd hirdymor.
- Sicrhau bod cleifion yn gallu cael mynediad at ofal sylfaenol pan fydd ei angen arnynt. Gall hyn fod drwy apwyntiad rhithwir neu wyneb yn wyneb, yn ôl yr angen.
- Cyflwyno fframwaith uwchgyfeirio i gefnogi practisau cyffredinol i adrodd a monitro pwysau o fewn y system yn gyson a lliniaru camau gweithredu i fynd i'r afael â'r risgiau.
- Drwy gyfnod yr hydref a'r gaeaf, cynnal amrywiaeth o fesurau llacio cytundebol a fwriedir i leddfu'r galw cynyddol ar fferyllfeydd cymunedol a gyflwynwyd yn ystod pandemig COVID-19.
- Sicrhau defnydd cadarn o dimau cymunedol sy'n darparu gofal wedi'i gynllunio a gofal brys:
 - Datblygu'r gwaith o gyflwyno e-amserlennu ar gyfer timau nyrsio cymunedol.
 - Sicrhau bod gan y 'wardiau rhithwir' a thimau adnoddau cymunedol yn cynnwys ystod a nifer priodol o weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd.
 - Integreiddio ailalluogi ac adsefydlu cymunedol, timau cwmpadau, timau iechyd meddwl plant a phobl hŷn ac iechyd meddwl ac anableddau dysgu.
- Parhau â'r gwaith a wneir gan wasanaeth y Locum Hub a GP Wales i gefnogi gwaith recriwtio.
- Byddwn yn parhau i gymell practisau meddygon teulu i wella mynediad i gleifion, ac annog dewisiadau eraill yn hytrach na chael rhuthr o alwadau am 8am gan bobl sy'n ceisio gwneud apwyntiadau dros y ffôn. Byddwn hefyd yn hyrwyddo hyfforddiant i dderbynyddion practisau i frysbennu'n effeithiol, ac yn annog y defnydd o ddewisiadau amgen i bractisau meddygon teulu sydd eisoes yn profi cynnydd sylweddol yn y galw, gan weld mwy o gleifion nag erioed o'r blaen ar hyn o bryd.

3.4 Syndrom ôl-COVID (COVID Hir)

Mae gan bob bwrdd iechyd amrywiaeth o wasanaethau ar waith yn unol â chanllawiau NICE a llwybr Cymru Gyfan, sy'n darparu asesiad a thriniaeth bersonol mor agos i'r cartref â phosibl. Mae'r gwasanaethau hyn yn sicrhau mynediad amserol

at asesu, adsefydlu, diagnosteg a gofal arbenigol i ddiwallu anghenion pobl sy'n profi effeithiau tymor hwy COVID-19 a rhaid eu cynnal yn ystod gaeaf 2021-22.

Rydym yn gwerthuso ac yn adolygu ein rhaglen ADFERIAD ar gyfer syndrom ôl-COVID a COVID-19 parhaus symptomatig. Bydd yr adolygiad hwn yn cael ei gwblhau yn gynnar yn 2022 a bydd yn ystyried yr wybodaeth newydd sydd ar gael i ni.

3.5 Gwasanaethau plant a phobl ifanc

Gwyddom fod effeithiau ehangach COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar fywydau plant a phobl ifanc a'u lles. Yn genedlaethol, gwnaed gwaith sylweddol i ddeall yr effaith hon a'r camau y mae angen i ni eu cymryd i amddiffyn a diogelu hawliau plant a phobl ifanc. Gwyddom fod angen inni gymryd camau i sicrhau bod gwasanaethau ar gael i ddiwallu anghenion iechyd a gofal ehangach plant a phobl ifanc.

Eleni rydym yn disgwyl i feirws syncytiol anadlol effeithio ar niferoedd uwch nag arfer o blant ifanc fel y gwelir mewn rhannau eraill o'r byd. Mae angen i'n gwasanaethau allu ymateb i'r galw cynyddol hwn. Mae hyn yn cynnwys gofal critigol pediatrig a gwasanaethau ysbytai aciwt.

Y camau gweithredu allweddol yw:

- Parhau i sicrhau bod gwasanaethau nyrsio plant cymunedol (e.e. ymweliadau iechyd a nyrsys iechyd mewn ysgolion) yn darparu gwasanaethau hanfodol i blant a phobl ifanc.
- Sicrhau bod capasiti yn ein gwasanaethau pediatrig yn yr ysbyty i ddarparu gofal i blant sydd â feirws syncytiol anadlol yn ystod cyfnodau a ragwelir lle bo'r galw ar ei anterth.
- Parhau i weithio gyda chydweithwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol fel bod plant a phobl ifanc mewn gofal yn cael eu cefnogi'n briodol a bod hawliau plant a'r budd pennaf iddynt wrth wraidd ein gwaith.

3.6 Gwasanaethau Hanfodol

Rhaid cynnal gwasanaethau hanfodol drwy gydol y pandemig ac mae'r gofynion hyn wedi'u nodi yn: [Iechyd yng Nghymru | Canllawiau Gwasanaethau Hanfodol COVID-19](#). Mae'r fframwaith hwn wedi'i gynllunio i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau clinigol mewn perthynas ag asesu a thrin cleifion unigol. Y nod yn y pen draw yw sicrhau bod cyn lleied â phosibl o niwed yn sgil gostyngiad tymor byr mewn gweithgarwch nad yw'n ymwneud â COVID. Mae'n cynnwys rheoli cyflyrau iechyd brys a chyflwyniadau aciwt sy'n gofyn am ymyrraeth sy'n sensitif o ran amser, megis archwiliadau a thriniaethau canser, yn ogystal â gwasanaethau'r galon a strôc. Dylai sefydliadau geisio cynnal y gwasanaethau hyn yn ystod y gaeaf a dylai unrhyw gamau sy'n atal gwasanaethau gael eu gwneud yn unol â'r Fframwaith Dewisiadau. Yn benodol, bydd angen i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau barhau i ymateb i'r rhagdybiaeth gynllunio a nodwyd yn y Datganiad Ansawdd ar gyfer Canser i adfer maint y rhestr aros i'r hyn ydoedd cyn y pandemig.

Y camau gweithredu allweddol yw:

- Parhau i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau hanfodol gan gynnwys diagnosis a thrin canser, gwasanaethau'r galon a strôc.
- Parhau â'n rhaglenni diagnostig a sgrinio.

3.7 Gofal wedi'i Gynllunio

Mae effaith y pandemig ar ofal wedi'i gynllunio wedi bod yn sylweddol, gan arwain at ôl-groniad o gleifion yn aros am driniaethau sydd wedi'u cynllunio. Oherwydd yr amser aros cynyddol am driniaeth, mae perygl y bydd cyflyrau/salwch yn gwaethygu ac efallai y bydd pobl yn chwilio am gymorth ychwanegol gan wasanaethau gofal brys neu argyfwng. Rydym yn ymwybodol iawn o'r boen y mae llawer o bobl yn ei ddioddef wrth iddynt aros am eu triniaeth.

Rydym wedi buddsoddi £240m i gyflymu'r broses o adfer gofal wedi'i gynllunio yn ystod 2021. O ganlyniad i'r buddsoddiad hwn, mae lefelau gweithgarwch (triniaeth drwy lawdriniaethau ac apwyntiadau cleifion allanol) wedi cynyddu dros y misoedd diwethaf ac ym mis Medi 2021, roedd gweithgarwch dewisol tua 77% o'r hyn yr oedd ym mis Medi 2019 ond 150% o lefel y gweithgarwch ym mis Medi 2020.

Bu cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n aros am ofal wedi'i gynllunio, ac mae'n bwysig rheoli'r disgwyliau. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir y bydd yn cymryd tymor cyfan y Senedd i glirio'r ôl-groniad. Bydd hefyd yn anodd dechrau gweithio drwy'r ôl-groniad yn ystod cyfnod y gaeaf ac felly rydym yn debygol o weld niferoedd uwch nag erioed o bobl yn aros am driniaeth fis ar ôl mis nes y bydd pwysau'r gaeaf wedi cilio.

Gan gydnabod yr her o ddarparu gwasanaethau hanfodol, gan gynnwys gofal argyfwng a gofal brys ochr yn ochr â gofal wedi'i gynllunio, a hynny mewn amgylchedd cyfyngedig gyda'r prosesau atal a rheoli heintiau sydd eu hangen i gadw cleifion yn ddiogel, bydd angen darparu triniaethau wedi'u cynllunio gan flaenoriaethu yn dilyn asesiad risg. Bydd hyn yn sicrhau mai'r bobl sy'n wynebu'r risg fwyaf o niwed fydd yn cael eu triniaeth yn gyntaf.

Gan fod y cyfyngiadau yn ein system yn golygu bod pobl yn aros yn hirach nag yr hoffem am driniaeth wedi'i chynllunio, mae'n bwysig bod gwasanaethau ar gael i gefnogi pobl wrth iddynt aros am driniaeth benodol wedi'i chynllunio.

Drwy raglen glinigol genedlaethol, mae Llywodraeth Cymru a'r GIG wedi bod yn archwilio ffyrdd newydd o weithio i ddarparu gwasanaethau, ac wedi rhoi'r rhain ar waith. Cyflymodd y gwaith hwn yn ystod tonnau cynnar y pandemig ac mae'n cynnwys:

- Cefnogi timau gofal sylfaenol i ddarparu gofal yn lleol drwy roi cyngor arbenigol, sy'n golygu nad oes rhaid i bobl aros am adolygiad mewn clinigau cleifion allanol.
- Symud gwasanaethau i leoliadau gofal sylfaenol/cymunedol, er enghraifft optometryddion ar y stryd fawr yn darparu gofal llygaid parhaus.
- Cynnig ymgynghoriad adolygu cleifion allanol dros y ffôn a fideo i gleifion os nad oes angen ymgynghoriad wyneb yn wyneb arnynt.

- Mae sefydliadau'r GIG wedi bod yn gweithio gyda chleifion i'w grymuso i reoli eu cyflwr ac i geisio cymorth pan fydd ei angen arnynt yn hytrach nag aros am apwyntiad adolygu. Mae'r system hon o'r enw "sylw yn ôl symptomau" wedi dangos nad oes angen i 90-95% o gleifion gael adolygiad.

Y camau allweddol yw:

- Cynnal a chadw gwasanaethau gofal wedi'u cynllunio drwy gydol y gaeaf;
- Gweithio i gynyddu lefelau gweithgarwch mewn gofal wedi'i gynllunio;
- Camau wedi'u targedu mewn gwasanaethau canser, gofal llygaid a dermatoleg;
- Cadw mewn cysylltiad â chleifion sy'n aros am driniaethau wedi'u cynllunio a sicrhau y darperir cymorth lladd poen a chynghor iechyd y cyhoedd i sicrhau, pan fyddant yn cael eu galw am driniaeth, y gallant fod yn fwy hyderus o gael gwell canlyniad. Ceir canllawiau cenedlaethol ar sut y gellir cefnogi pobl i gadw'n iach ar wefan GIG 111 - [GIG 111 Cymru: Byw a Theimlo'n Dda](#)
- Rhaid i fyrddau iechyd lleol gadw mewn cysylltiad â chleifion sy'n aros am driniaethau wedi'u cynllunio i sicrhau bod unrhyw newidiadau yn eu cyflwr yn cael eu hadnabod a'u rheoli.

Byddwn yn amlinellu ein strategaethau hirdymor i fynd i'r afael â'r ôl-groniad yn yr uwchgynhadledd ar ofal wedi'i gynllunio ym mis Tachwedd 2021, gan gynnwys datblygu canolfannau COVID rhanbarthol mewn rhai lleoliadau.

3.8 Gofal brys a gofal argyfwng

Mae'r chwe nod ar gyfer gofal brys a gofal argyfwng yn amlinellu camau i systemau iechyd a gofal cymdeithasol eu rhoi ar waith i sicrhau bod cleifion yn gallu cael gafael ar y gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf.

Er bod y chwe nod yn amlinellu uchelgais tymor hwy, mae llawer o gamau gweithredu a fydd yn cyflawni gwelliannau a fydd yn cefnogi cydnerthedd gwasanaethau i ddiwallu anghenion cleifion yn ystod y gaeaf.

Y camau allweddol yw:

- Cyflwyno GIG 111 Cymru yn genedlaethol a gweithredu gwasanaethau 'ail bwynt mynediad' y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod cleifion yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth cywir, y tro cyntaf.
- Cyfeirlyfr cadarn a chyfredol o wasanaethau ar lefel Bwrdd Iechyd.
- Camau gweithredu gan y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru ynghyd â chymorth ychwanegol gan y lluoedd arfog i gynyddu'r capasiti i ymateb i gleifion sy'n ddifrifol wael neu wedi'u hanafu.
- Byrddau iechyd i weithio gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru i sicrhau gostyngiad diogel yn nifer y bobl sy'n cael eu cludo mewn ambiwlans i Adrannau Brys. Dylai hyn gynnwys canolbwyntio mwy ar reoli cleifion drwy linellau cyngor ac arweiniad arbenigol a sicrhau bod clinigwyr y byrddau iechyd yn cynnal adolygiadau trylwyr o gleifion 999 gyda'r bwriad o leihau'r nifer sy'n cael eu cludo i'r ysbyty neu osgoi'r Adran Frys, a hynny mewn modd diogel.

- Canolbwyntio mwy ar drosglwyddo cleifion ambiwlans yn ddiogel ac yn brydlon a brysbennu cleifion mewn Adrannau Brys.
- Cyflymu darpariaeth gwasanaethau sy'n rhoi dewisiadau diogel eraill yn hytrach na mynd i'r ysbyty. Bydd hyn yn cynnwys:
 - Cynyddu nifer y parafeddygon yng nghanolfannau cyswllt clinigol y gwasanaethau ambiwlans;
 - Darparu Gwasanaethau Proffesiynol Perthynol i Iechyd drwy fynediad uniongyrchol ac ymyrraeth gynnar i achub y blaen ar argyfyngau a gwneud y mwyaf o ofal ac adsefydlu yn y fan a'r lle
 - Sefydlu ac ehangu gwasanaethau gofal brys cadarn yr un dydd fel bod cleifion yn cael eu hasesu, yn cael diagnosis ac yn dechrau triniaeth ar yr un diwrnod, gan arwain at well profiadau a chanlyniadau i gleifion a lleihau derbyniadau i'r ysbyty heb eu cynllunio.
 - Gweithredu canolfannau/gwasanaethau gofal sylfaenol brys amlbroffesiynol ar draws Cymru i ddarparu gwasanaethau gofal brys mor agos at y cartref â phosibl.
 - Gweithredu pwyntiau cyswllt unigol ar gyfer atgyfeiriadau iechyd meddwl drwy 111 ar gyfer oedolion a phlant ac archwilio dewisiadau amgen yn hytrach na derbyn pobl ifanc mewn argyfwng i'r ysbyty.
- Sicrhau bod gennym ddigon o gapasiti aciwt mewn ysbytai a gofal critigol pan fydd cynnydd yn y galw, drwy greu capasiti ymchwydd.
- Sefydlu llwybrau 'rhyddhau i adfer ac yna asesu' i gefnogi cleifion i ddychwelyd adref neu i gael cymorth mewn cartref gofal i wella yn dilyn arhosiad mewn ysbyty, cyn cadarnhau eu hanghenion parhaus o ran gofal a llety.
- Lleihau nifer y bobl sy'n treulio cyfnodau hir (dros 21 diwrnod) mewn gwelyau ysbyty cyn dychwelyd i'w cymunedau.

4 Cynnal ein gwasanaethau gofal cymdeithasol

Mae'r gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cefnogi pobl ag anghenion gofal a chymorth a'u teuluoedd i fyw a chadw'n iach, mor agos i'w cartrefi â phosibl. Gan weithio'n agos gyda phartneriaid iechyd cymunedol a'r trydydd sector, mae'r gwasanaethau gofal cymdeithasol yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau y gall pobl ganolbwyntio ar 'yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw' a byw mor annibynnol â phosibl. Drwy sicrhau bod gwasanaethau gofal cymdeithasol da ar gael i gefnogi pobl a'u gofalwyr, gellir atal anghenion gofal rhag gwaethygu ac atal yr angen am ofal mewn ysbyty.

Fodd bynnag, mae'r sector gofal cymdeithasol ar hyn o bryd yn wynebu heriau digynsail o ganlyniad i'r pandemig a Brexit. Ar adeg pan fo galw cynyddol am wasanaethau ac anghenion gofal sy'n gynyddol gymhleth, mae'r gweithlu'n flinedig ac o ganlyniad rydym wedi gweld gweithwyr gofal cymdeithasol yn gadael y sector ac wedi cael anawsterau sylweddol wrth recriwtio staff newydd. Mae gofalwyr di-dâl hefyd yn flinedig ac mae angen cymorth ychwanegol arnynt i barhau â'u gwaith gofalu gwerthfawr.

Mae Awdurdodau Lleol wedi tynnu sylw'n benodol at y pwysau cynyddol arnynt o ran y galw uwch, costau uwch ac anghenion cynyddol gymhleth ar gyfer plant a phobl ifanc â phrofiad o ofal. Mae cynnydd hefyd yn nifer y plant sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty oherwydd problemau iechyd meddwl sydd angen cymorth parhaus ac integredig yn y gymuned ac mae 68% o awdurdodau lleol bellach yn adrodd am gynnydd mewn cysylltiadau diogelu o gymharu â'r lefelau a ddisgwyllir ar yr adeg hon o'r flwyddyn.

Bydd buddsoddi i gefnogi camau ataliol a helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel, ochr yn ochr ag adnoddau i sicrhau lleoliadau sefydlog o ansawdd da yn nes at adref, yn fesurau pwysig i helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu.

Yn ddiweddar, gwnaethom gyhoeddi parhad elfen Gofal Cymdeithasol i Oedolion y Gronfa Caledi a chyllid cymesur ar gyfer byrddau iechyd lleol, i ddarparu cymorth parhaus i'r sector gofal cymdeithasol i oedolion wrth iddynt ymateb i'r pandemig, gan gynnwys cydweithio rhwng gofal cymdeithasol, a gwasanaethau Proffesiynol Perthynol i lechyd mewn ysbytai ac yn y gymuned.

Byddwn yn parhau i gefnogi cartrefi gofal a darparwyr gofal cartref drwy roi'r canllawiau diweddaraf iddynt a chadw mewn cysylltiad agos â phartneriaid yn y sector.

Mae'r trydydd sector yn parhau i fod yn bartner gwerthfawr yn ein gwaith o gynllunio ac ymateb i'r pwysau ar y system, a chan adeiladu ar y bartneriaeth ragorol a luniwyd gyda'r sector a chymunedau yn ystod y pandemig, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i feithrin a thyfu'r bartneriaeth honno i'n helpu i ymgorffori atebion cymunedol ataliol.

Yn gysylltiedig â hyn, mae creu cysylltiadau cryfach ar draws gwasanaethau cymunedol, gofal cymdeithasol a gofal sylfaenol yn hanfodol i wneud y defnydd mwyaf posibl o'n hadnoddau a sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu diwallu yn y lle iawn, ar yr adeg iawn, a chyn gynted â phosibl.

Rydym yn darparu cefnogaeth barhaus ar gyfer ymyriadau i ddenu a chadw staff yn y sector gofal cymdeithasol. Cynhaliwyd ymgyrch drwy'r cyfryngau a hysbysebion ym mis Awst/Medi ac rydym yn parhau gyda chyfuniad o hysbysebion teledu/radio a gwaith hyrwyddo arall i sbarduno recriwtio. Rydym yn gwneud hyn mewn cydweithrediad â Gofal Cymdeithasol Cymru.

Rydym wedi darparu cyllid ychwanegol i Ofal Cymdeithasol Cymru fel bod modd i raglen hyfforddi ragarweiniol 3 diwrnod ar gyfer gofal cymdeithasol fod ar gael yn genedlaethol. Mae'r rhaglen yn cyflwyno pobl i hanfodion gofal cymdeithasol ac yn darparu cymorth cofleidiol i annog pobl i geisio gwaith yn y sector. Mae ein buddsoddiad ychwanegol hefyd yn darparu llawer mwy o adnoddau i Ofal Cymdeithasol Cymru weithio gyda phartneriaid cyflogadwyedd a thrwy rwydweithiau newydd a phresennol i gynnal ymarferion recriwtio wedi'u targedu a sicrhau bod adnoddau ar gael i gefnogi mentrau lleol a rhanbarthol. Bydd y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol yn gwneud argymhellion i weinidogion ym mis Hydref ynghylch

ymrwymiad y llywodraeth i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol. Mae pecyn o wasanaethau llesiant hefyd ar gael drwy wefan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae gwasanaeth cymorth i weithwyr hefyd ar gael.

Er bod rhai o'r atebion ar gyfer sicrhau system gofal cymdeithasol gynaliadwy ac effeithiol yn rhai hirdymor, mae rhai camau allweddol y byddwn yn eu blaenoriaethu y gaeaf hwn.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni cynllun y gaeaf, mae Gweinidogion wedi ymrwymo i roi pecyn ariannol o £42.72 miliwn ychwanegol i sicrhau gweithredu cyflym ar draws y sector.

Mae'r camau gweithredu allweddol ar gyfer gaeaf 2021-22 yn cynnwys:

- Cefnogi ein gweithlu gofal cymdeithasol a'u cadw'n ddiogel, gan gynnwys parhau i ddarparu cyfarpar diogelu personol am ddim i'r gweithlu gofal cymdeithasol.
- Cefnogi cadernid ein cartrefi gofal a hwyluso rhyddhau pobl yn ddiogel o'r ysbyty.
- Cefnogi cadernid y sector gofal cartref.
- Parhau ag ymgyrch hysbysebu a hyrwyddo i gefnogi recriwtio gweithwyr gofal cymdeithasol (£350,000)
- Darparu cyllid a chymorth ychwanegol i ofalwyr di-dâl i helpu i'w cefnogi yn eu rôl bwysig ac osgoi chwalu'r berthynas ofalu (£5.77m)
- Darparu buddsoddiad ychwanegol mewn gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal yn y trydydd sector i helpu i feithrin gallu cymunedol ac ail-greu rhywfaint o'r cymorth hanfodol a ddarparwyd gan y sector hwn yn ystod camau cynharaf y pandemig. (£3.8m)
- Gweithio drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i greu ymatebion iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn y gymuned i bobl ag anghenion gofal a chymorth. (£9.8m).
- Gweithio ar draws ffiniau sefydliadol yn unol â Model Gofal Sylfaenol Cymru, i ddatblygu llwybrau a fframweithiau o gyfleoedd a fydd yn effeithio ar y pwysau gweithredol presennol, yn meithrin cadernid ar gyfer y gaeaf ac yn gwneud y mwyaf o'r holl asedau yn y gymuned ar draws clwstwr neu glystyrau (£2m).
- Darparu adnoddau ychwanegol i'r gwasanaethau Plant i gefnogi camau ataliol a fydd yn helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel a, lle bo angen hynny, sicrhau lleoliadau sefydlog o ansawdd da i blant sydd ag anghenion mwy cymhleth, yn nes at adref. (£21m)

5 Cefnogi ein Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae ein gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol wedi gweithio'n ddiflino i ddarparu gwasanaethau drwy gydol cyfnod y pandemig ac rydym yn ddiolchgar am eu hymdrechion enfawr yn ystod y cyfnod hwn. Yn dilyn cyfnod mor hir o bwysau sylweddol, a chyfraniad hollbwysig y gweithlu wrth ymateb i'n cynlluniau ar gyfer y gaeaf, rydym yn cydnabod bod yn rhaid inni barhau i ganolbwyntio ar gefnogi ein gweithlu a'u cadw'n ddiogel ac yn iach.

Mae'n hanfodol cydlynu cynlluniau'r gweithlu er mwyn osgoi dyblygu ymdrechion a lleihau unrhyw fylchau, gan wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau dynol gwerthfawr.

Bydd gweithio mewn partneriaeth rhwng timau a sefydliadau yn galluogi'r defnydd gorau o staff er budd y bobl sydd angen gwasanaethau.

Y camau allweddol yw:

- Cynnwys clinigwyr wrth ddatblygu cynllun y gaeaf a gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol drwy drefniadau lleol i ymgysylltu â'r gweithlu ehangach, eu cynnwys mewn cynlluniau a'u hysbysu.
- Parhau i ganolbwyntio ar lesiant ein gweithlu a chefnogi eu hiechyd corfforol a meddyliol. Yn benodol, defnyddio Adnodd Asesu Risg COVID i roi mesurau lliniaru ar waith lle bo angen, gan annog y defnydd o'r adnodd llesiant i gyfeirio unigolion at yr hadnoddau sydd ar gael yn lleol ac yn genedlaethol i'w cefnogi.
- Annog pob gweithiwr rheng flaen i fanteisio ar frechlyn atgyfnerthu COVID a brechlyn fflw i ddiogelu eu hiechyd eu hunain ac iechyd y rhai y maent yn gofalu amdanynt.
- Sicrhau nad yw cynlluniau'r gweithlu ar gyfer iechyd yn cael effaith negyddol ar gyflenwad y gweithlu gofal cymdeithasol drwy ystyried cynlluniau ar y cyd ar gyfer recriwtio a defnyddio staff yn hyblyg ar draws iechyd a gofal cymdeithasol i gyflawni amcanion gofal a rennir yn nes at y cartref a galluogi llif drwy ysbytai sy'n gysylltiedig â 'rhyddhau i adfer ac yna asesu' a chryfhau gwasanaethau cymunedol.

Er ein bod yn canolbwyntio ar y gaeaf, mae angen inni hefyd barhau i ganolbwyntio ar ddull mwy strategol o sicrhau ein bod yn cymryd y camau cywir nawr i ddatblygu a lleoli gweithlu cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae'r cyfeiriad hwn wedi'i nodi yn ein strategaeth gweithlu 10 mlynedd, 'Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol', a ddatblygwyd ar y cyd gan Addysg a Gwellu Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru a dylai sefydliadau fod yn gweithio i weithredu'r blaenoriaethau a nodwyd yn y strategaeth gan ddefnyddio'r cyfleoedd i gyflawni 'unwaith i Gymru' os mai dyma'r dull mwyaf effeithiol.

6 Cefnogi gofalwyr di-dâl

Yn ogystal â'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol cyflogedig, mae'n hanfodol ein bod ni'n cefnogi gofalwyr di-dâl yng Nghymru sy'n parhau i ddarparu'r mwyafrif o'r gwaith gofalu yn y cartref. Boed yn ofal ar gyfer aelodau o'r teulu, ffrindiau neu gymdogion sydd ag anghenion gofal a chymorth hirdymor, efallai y bydd angen cymorth ar ofalwyr di-dâl i ofalu am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Rhaid i ofalwyr di-dâl hefyd allu cael mynediad at eu hawl gyfreithiol i gael asesiad o anghenion gofalwyr, a sicrhau bod eu hanghenion cymwys eu hunain am ofal a chymorth yn cael eu diwallu. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod gofalwyr yn osgoi cyrraedd pwynt o argyfwng, neu'n mynd yn sâl eu hunain.

Er mwyn helpu gofalmwr di-dâl i ymdopi yn ystod y pandemig, yn y flwyddyn ariannol hon mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £3miliwn i awdurdodau lleol i ddarparu mwy o gyfleoedd i ofalmwr gymryd seibiant ac £1miliwn ychwanegol i'r Gronfa Cynnal Gofalmwr sy'n targedu gofalmwr di-dâl sydd mewn caledi ariannol.

Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i ariannu sefydliadau gofalmwr cenedlaethol drwy Gynllun Grantiau i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol 2020-23, fel y gallant ddarparu ystod o wasanaethau cymorth a gwybodaeth ac rydym yn darparu £1m i fyrdau iechyd lleol a'u partneriaethau gofalmwr i dargedu ac addasu prosiectau sy'n cefnogi gofalmwr.

7 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb

Drwy gydol y pandemig, mae cyfathrebu Llywodraeth Cymru wedi bod yn gyson glir ac wedi cael derbyniad da, gyda'n negeseuon yn cael eu rhannu gan bartneriaid ledled y wlad i roi cyngor ac arweiniad cyson.

Bydd ymgyrch Diogelu Cymru'n parhau drwy gydol yr hydref / gaeaf, gyda'r nod o annog yr ymddygiadau sydd eu hangen i atal lledaeniad a niweidiau pellach COVID-19 a heintiau anadlol eraill. Mae'r rhain yn cynnwys hyrwyddo'r rhaglen frechu, profi a hunanynysu, a'r ymddygiadau personol sy'n ofynnol gan bobl, fel yr amlinellir yn y Cod COVID.

Bydd mwy o weithgarwch gan yr ymgyrch Helpu Ni Helpu Chi hefyd yn ystod yr hydref / gaeaf. Mae'r ymgyrch yn ymdrin â mynediad i'r GIG yng Nghymru, hunanofal a llesiant. Bydd yr ymgyrch yn parhau i hyrwyddo ffyrdd priodol o gael mynediad at wasanaethau'r GIG, yn ogystal ag annog pobl i gymryd camau i ofalu am eu llesiant meddyliol a chorfforol. Bydd hunanofal yn hollbwysig yn ystod y cyfnod ymgyrchu hwn a bydd yn cynnwys hyrwyddo'r cynllun anhwylderau cyffredin mewn fferyllfeydd cymunedol.

Bydd y ddwy ymgyrch yn cynnwys hysbysebion proffil uchel a chysylltiadau â'r cyfryngau, yn ogystal â defnyddio lleisiau dibynadwy fel dylanwadwyr a phartneriaid i bwysleisio'r negeseuon.

Bydd rhanddeiliaid hefyd yn cael eu cefnogi drwy gyfrwng pecynnau cymorth ac adnoddau i hyrwyddo gwasanaethau / cymorth lleol tra'n cefnogi'r negeseuon cenedlaethol.

Mae negeseuon cyhoeddus yn bwysig fel bod pobl yn gwybod pa wasanaeth yw'r un iawn i ddiwallu eu hanghenion, yn enwedig pan fo angen dybryd amdano. Ym maes gofal sylfaenol, mae ein fferyllfeydd, optometryddion, deintyddion a thimau gofal sylfaenol i gyd yn darparu gwasanaethau hanfodol yn ogystal â'r adrannau brys ac unedau mân anhwylderau ac anafiadau yn ein hysbytai. Arweiniodd y newid cyflym yn ystod cyfnodau cynnar y pandemig at fodolau darparu gwasanaethau newydd lle gall pobl gael cymorth gan ofal sylfaenol drwy ddulliau amgen, gan gynnwys galwadau ffôn a fideo, er mwyn cynnal gwasanaethau mewn ffordd ddiogel ac effeithlon.

Mae hefyd yn fwy hanfodol nag erioed bod pawb yn cymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant cyffredinol er mwyn cadw'n iach a lleihau'r pwysau ar y GIG.

Fel rhan o'r ymgyrch Helpu Ni Helpu Chi ehangach, byddwn yn hyrwyddo 'Camau bach at Gymru iachach' a fydd yn cynnig syniadau i annog gwneud newidiadau bach i ffordd o fyw a chyfeirio pobl at y cymorth sydd ar gael. Bydd yr ymgyrch yn cynnwys amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys hysbysebion ar-lein, cyfryngau print, hysbysebion ar fapiau fferyllol, ac arddangosfeydd a fideos mewn meddygfeydd a chanolfannau brechu y gaeaf hwn. Byddwn yn defnyddio ein partneriaid i sicrhau bod y negeseuon hyn hefyd yn cael eu dosbarthu'n eang drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Byddwn yn parhau i ddiweddarau ein canllawiau ymweld ar gyfer darparwyr cartrefi gofal yn unol â lefelau rhybudd, er mwyn sicrhau y gall pobl barhau i ymweld â'u hanwyliaid yn ddiogel dros y gaeaf. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth bwrpasol ar gyfer ymwelwyr a phobl sy'n byw ac yn gweithio mewn cartrefi gofal.

8 Gweithio gyda'n gilydd ledled Cymru

Gan adeiladu ar y gwaith partneriaeth rhagorol a oedd yn sail i'n hymateb i COVID-19, bydd angen i sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol barhau i gydweithio i reoli'r pwysau ar draws y system, gan gydnabod bod camau gweithredu un rhan o'r system yn cael effaith ar rannau eraill o'r system.

I'r perwyl hwn, gofynnwn i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol goladu un cynllun lefel uchel ar gyfer yr ymateb iechyd a gofal cymdeithasol integredig i'r pwysau tymhorol eleni, yng nghyd-destun gwaith partneriaeth ehangach ar draws newidiad hirdymor ac i fynd i'r afael â phwysau ar y system. Dylai'r cynllun hwn ddwyn ynghyd gamau gweithredu newydd a phresennol pob un o'r partneriaid statudol yn ogystal â'r gwaith a wneir drwy nawdd y bwrdd partneriaeth rhanbarthol mewn un lle er mwyn rhoi trosolwg system gyfan o'r ymateb iechyd a gofal cymdeithasol i bwysau'r gaeaf. Ni ddylai'r cynllun ddyblygu cynlluniau sy'n bodoli eisoes a dylid cynnwys dolenni i'r rhain fel sy'n briodol. Yn yr un modd, dylid monitro drwy ddulliau sy'n bodoli eisoes, gyda goruchwyliaeth briodol o gynnydd gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol hefyd ystyried y cymorth ychwanegol sydd ar gael gan sefydliadau a rhaglenni cenedlaethol sy'n gweithio ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, a'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol, Uned Gyflawni GIG Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Iechyd Cymru, a Gwelliant Cymru sydd wedi lansio eu dogfen strategaeth pum mlynedd "Gwella Ansawdd a Diogelwch" yn ddiweddar.